



## Y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol

### Cyfarfod Rhif 2: Cofnodion

Rhos, Cyffordd Llandudno, Llywodraeth Cymru

10 Medi 2019

#### YN BRESENNOL:

Martin Buckle (Cadeirydd)	Y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol
James Morris (JM)	Llywodraeth Cymru
Chris Curry (Ysgrifenyddiaeth)	Llywodraeth Cymru
Lisa Goodier, Uwch-reolwr Prosiect	Cyngor Gwynedd

#### Aelodau'r Pwyllgor:

Adrian Philpott (AP)	Dŵr Cymru – Welsh Water
Darren Thomas (DT)	Cyngor Sir Penfro
Geraint Edwards (GE)	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Andrew Stone (AS)	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Jean-Francois Dulong (JD)	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Jeremy Parr (JP)	Cyfoeth Naturiol Cymru
Lorna Davis (LD)	Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru
Karen Potter (KP)	Y Brifysgol Agored
Paul Blackman (PB)	Wallingford Hydro Solutions
Mike Wellington (MW)	WSP Consultation
David Harris (DH)	Ymgynghorydd Annibynnol
Natalie Haines (NH)	Mott MacDonald
Anne-Marie Moon (AM)	JBA Consulting

#### Ymddiheuriadau:

Catherine Wilson (CW)	Prifysgol Caerdydd
Jonni Tomos (JT)	Llywodraeth Cymru

### 1 - 2. Ymddiheuriadau a chyflwyniadau

Cyflwynodd y Cadeirydd yr ymddiheuriadau a dywedodd y byddai JM yn cyflwyno'r eitemau ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a'r Nodiadau Cyngor Technegol Cynllunio (TAN 14 & Tan 15).

### 3. Datgan Buddiannau

Gofynnodd y Cadeirydd i aelodau'r pwyllgor ystyried y papurau a datgan a oedd ganddynt unrhyw wrthdaro buddiannau. Nid oedd unrhyw wrthdaro buddiannau.

#### **4. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Mehefin 2019, a Materion sy'n Codi**

Roedd y cofnodion drafft wedi eu dosbarthu ar gyfer cyflwyno sylwadau arnynt, ac wedi eu cyhoeddi wedyn.

Nododd y Cadeirydd y bydd Cynllun Ymaddasu Cymru ar gyfer Newid yn yr Hinsawdd yn cael ei gyhoeddi'n ddiweddarach eleni.

Nododd y Cadeirydd *GAM GWEITHREDU 5 – Yr Ysgrifenyddiaeth i ymchwilio i weithrediad gweithle electronig diogel ar gyfer rhannu papurau.*

#### **5. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddiariad ar ei weithgareddau ers cynnal cyfarfod cyntaf y Pwyllgor ym mis Mehefin.

Bu'n cyfarfod â Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ym mis Mehefin. Rhoddodd hyn gyfle i'r Cadeirydd roi'r diweddaraf iddi am y cynnydd o ran sefydlu'r Pwyllgor. Bu modd iddo hefyd rannu gyda hi farn y Pwyllgor ynglŷn â'r themâu arfaethedig, ac ystyried blaenoriaethau ac amserlenni ar gyfer y rhaglen waith gyda hi. Cytunodd y Gweinidog y dylid cynnal cyfarfod arall i drafod y rhaglen waith ar ôl iddi gael ei ffurfioli.

Yn dilyn hynny, bu'n gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru i ddatblygu rhaglen waith y Pwyllgor, ac ystyried y Rhaglen Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol a'r Strategaeth Genedlaethol Ddrafft ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru. Yn ystod y broses hon, bu'n cydgysylltu â chydweithwyr yn Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), ac mae wedi mynychu'r Bwrdd Rhaglen Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol. Ymhellach, mae wedi gwneud yn fawr o'r cyfle i sgwrsio â phob aelod o'r Pwyllgor er mwyn cael amcan o'u capasiti a'u diddordeb personol o ran bwrw ymlaen â gwaith y Pwyllgor.

Cafodd lythyr gan Gadeirydd y Grŵp Ymgynghorol ar Reoli Perygl Llifogydd yn CNC yn nodi rhai pryderon ynglŷn â'r adnoddau ar gyfer rheoli perygl llifogydd. Mae'r materion hyn wedi eu cynnwys yn ystyriaethau'r Pwyllgor o'r Strategaeth Genedlaethol Ddrafft ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru, a bydd yn rhannu barn y Pwyllgor gyda'r Cadeirydd yn CNC.

Yn dilyn cyfarfodydd yn y gwanwyn gyda Fforwm Grwpiau Arfordirol Cymru, a chyda grwpiau rheoli perygl llifogydd rhanbarthol ar gyfer Gogledd a De Ddwyrain Cymru, bu'r Cadeirydd yn cyfarfod hefyd â'r grŵp rhanbarthol ar gyfer De Orllewin Cymru.

Ym mis Mehefin mynychodd gyfarfod yn Swydd Efrog ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgorau Rhanbarthol Llifogydd ac Arfordir Lloegr. Rhoddodd y cyfarfod gyfle i ymweld ag arfordir Swydd Efrog a gweld rhai o'r heriau a'r ymatebion mewn perthynas ag erydu arfordirol yn yr ardal honno. Hefyd, mynychodd Gynhadledd Llifogydd Cymru, a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf.

Ym mis Gorffennaf cymerodd ran mewn rhaglen ymchwil yn ymwneud â'r Sefydliad Ymchwil Dŵr ym Mhrifysgol Caerdydd ar Integreiddio Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol a Llesiant yng Nghymru.

Hefyd, mae wedi cytuno i gyfarfod â Chymdeithas Yswirwyr Prydain a Chymdeithas yr Awdurdodau Draenio yn ystod yr wythnosau nesaf.

## **6. Astudiaeth Achos Gogledd Cymru – Y Friog – Lisa Goodier, Cyngor Gwynedd**

Rhoddodd LG gyflwyniad i'r Pwyllgor yn sôn am y Friog, fframwaith ar gyfer y dyfodol.

Bydd y sleidiau'n cael eu rhannu ar-lein, ochr yn ochr â'r cofnodion.

Cadarnhaodd JM fod Llywodraeth Cymru yn dymuno parhau i weithio gyda Chyngor Gwynedd a chymuned y Friog, ond cytunodd fod y sefyllfa'n gymhleth. O safbwynt iawndal, dywedodd nad yw Gweinidogion Cymru wedi penderfynu'r naill ffordd na'r llall eto; ond pe bai'r preswylwyr yn cael iawndal, byddai'n gosod cynsail, ac nid y Friog yw'r unig gymuned yng Nghymru sydd mewn perygl. Awgrymodd hefyd mai un o'r pryderon yr ydym yn ei wynebu yw'r siawns y gall dŵr dorri trwy amddiffynfeydd ac arwain at golli bywydau. Dywedodd JM fod Llywodraeth Cymru yn fodlon ystyried pob opsiwn a'u bod yn parhau i gynorthwyo Cyngor Gwynedd a CNC i reoli'r perygl ac ariannu gwaith ymchwil yn yr ardal.

Rhoddodd JP ganmoliaeth i GC a'r holl bartneriaid am eu gwaith arloesol yn Fairbourne, gan ddelio fel y mae gyda materion cymhleth mewn dull gydweithredol, a chydabod bod angen adnoddau sylweddol i wneud hyn. Cododd y mater o oblygiadau ehangach addasu arfordirol ar gyfer lleoliadau eraill yng Nghymru, gan awgrymu defnyddio sefyllfa Fairbourne i godi ymwybyddiaeth o'r her fawr hon. Awgrymodd y gallai'r Pwyllgor chwarae rhan wrth helpu gyda hyn.

Awgrymodd LG fod y pecyn cymorth Ymaddasu Arfordirol angen adnoddau priodol er mwyn gallu ei ddarparu.

Awgrymodd DT fod angen i ni fyfyrion ynghylch hyn, gan fod Niwgwl, Sir Benfro yn wynebu sefyllfa debyg. Dywedodd fod yna ddiffyg ymgysylltu gyda'r Cynllun Rheoli Traethlin, a'u bod yn dal i obeithio ailadeiladu'r asedau. Cytunodd fod cyfathrebu mewn modd tryloyw a chllir yn hanfodol a chrybwyllodd faterion yn ymwneud ag yswiriant ac effeithiau cymdeithasol llifogydd. Awgrymodd hefyd y dylid defnyddio terminoleg symlach wrth gyfathrebu gyda chymuned y Friog. Wrth symud ymlaen, awgrymodd y dylid gweithio'n agosach gyda thimau cynllunio ar effaith newid hinsawdd, gan na roddir ystyriaeth ar hyn o bryd i'r modd y gallwn gynllunio ymlaen. Gofynnodd DT i'r cyflwyniad gael ei rannu.

## **CAM GWEITHREDU 1 – Yr Ysgrifenyddiaeth i rannu'r cyflwyniad gyda'r Pwyllgor**

Trafododd MW y cynllun yn Dumfries – nid yw'r gymuned ei eisiau oherwydd yr effeithiau cymdeithasol. Awgrymodd fod angen ystyried effeithiau cymdeithasol / llesiant yn yr achos busnes, ochr yn ochr â'r gymhareb cost a budd.

Awgrymodd JD y bydd y materion a welir yn y Friog i'w cael mewn mannau eraill hefyd, ac y gallai'r Grwpiau Arfordirol fwrw ymlaen â'r mater hwn. Roedd ganddo gwestiwn i LG yn ymwneud â methiant her gyfreithiol y gymuned. Dywedodd LG na chyflwynwyd her gyfreithiol y gymuned o fewn y terfyn amser.

Cyflwynodd NH sylw o'i chyfraniad at y broses SMP2, o ran bod angen inni sylweddoli bod cost yn aml yn gysylltiedig â "Gwneud Dim" – sef nid dim costau yw canlyniad cerdded i fwrdd oddi wrth amddiffynfeydd.

Holodd LD am ymgysylltu. Gofynnodd sut gallwn gael proses lle mae'r holl randdeiliaid yn rhan ohoni. Dywedodd LG fod dogfen 'cwestiynau cyffredin' wedi ei llunio, sy'n cynnwys 152 o gwestiynau ar hyn o bryd, ac y dylai hon helpu.

Gofynnodd JM a oedd cynrychiolwyr o Gyngor Cymuned Arthog ar Fwrdd Symud Ymlaen y Friog. Cadarnhaodd LG fod cynrychiolwyr i'w cael, ond nad ydynt yn mynychu'n aml.

## **7. Adroddiadau**

### **7.1 Fframwaith Datblygu Cenedlaethol**

Dywedodd JM fod ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.

Roedd AP wedi cynnal adolygiad cychwynnol o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a rhoddodd ddiweddariad i'r Pwyllgor.

Esboniodd AP ei fod i gychwyn wedi chwilio trwy'r ddogfen Saesneg 72 tudalen am eiriau allweddol:

- 17 enghraifft o 'Climate Change' – yn cynnwys dolenni ar gyfer newid hinsawdd, heriau newid hinsawdd, ffynonellau dŵr, ecolegol ac ati. Ni chyfeiriwyd yn benodol at newid hinsawdd a pherygl llifogydd.
- 14 enghraifft o 'resilience', heb gyfeirio at gydnherthedd Cymunedau neu seilwaith.
- 3 chyfeiriad at 'flood'.
- 6 enghraifft o 'flooding' – sef datganiad cyffredin a ddefnyddiwyd mewn 3 ardal yng Nghymru.
- 1 enghraifft yr un o 'adaptation' ac 'erosion'.
- 2 enghraifft o 'risk'
- 94 enghraifft o 'infrastructure', heb gyfeirio o gwbl at amddiffynfeydd llifogydd fel seilwaith.

Diolchodd y Cadeirydd i AP am ei ddadansoddiad defnyddiol, ac awgrymodd y dylai'r Pwyllgor drafod y materion heddiw a mynd ati wedyn i lunio ymateb drafft cyntaf, i'w gyflwyno cyn i'r ymgynghoriad ddod i ben ar 1 Tachwedd.

Dywedodd DH fod y ddogfen ymgynghori yn nodi bod Gogledd Cymru mewn perygl o ddioddef llifogydd, ond na sonnir am Dde Ddwyrain Cymru nac unrhyw le arall o ran hynny.

Cytunodd y Cadeirydd fod yna fwy o bwyslais ar y materion yng Ngogledd Cymru o gymharu â gweddill Cymru. Esboniodd mai fersiwn gyntaf o Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ar gyfer Cymru fydd hon, ac y bydd yn fwy dylanwadol na Chynllun Gofodol Cymru.

Dywedodd NH y caiff y perygl o lifogydd ei grybwyll yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ond ble y caiff ei ystyried fel rhwystr i ardal yr hoffent ei datblygu.

Tynnodd y Cadeirydd sylw at raglen waith y Pwyllgor, sy'n cynnwys yn benodol yr ymateb i ymgynghoriad y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Awgrymodd y dylai'r aelodau gyflwyno sylwadau cychwynnol erbyn dydd Gwener 4 Hydref, ac yna bydd y Cadeirydd yn dosbarthu drafft cyntaf ar gyfer cyflwyno sylwadau arno ddydd Gwener 11 Hydref, ac yn llunio drafft terfynol i'w gyflwyno erbyn dydd Gwener 25 Hydref.

**CAM GWEITHREDU 2 – Y Cadeirydd i lunio ymateb drafft cychwynnol yn ymwneud â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, gyda golwg ar gyflwyno'r ymateb terfynol cyn 1 Tachwedd.**

## **7.2 Nodiadau Cyngor Technegol Cynllunio (TAN) 14 & 15**

Dywedodd JM na fydd yr ymgynghoriad ar TAN15 yn cael ei gynnal tan yn nes ymlaen yn yr hydref. Cadarnhaodd y byddai'r rhai a fynychodd y digwyddiadau ymgynghori Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol wedi gweld cyflwyniadau ar TAN14 & TAN15, ac y bydd yna safbwynt cryf o ran datblygu yn y gorlifdir.

## **7.3 Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol**

Dylid ystyried adroddiad y Cadeirydd ar ymateb y Pwyllgor i'r Ymgynghoriad.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am gyfrannu at y ddogfen. Dywedodd fod yr adborth drafft yn gynhwysfawr, gyda 76 paragraff yn ychwanegol at yr ymatebion i'r cwestiynau.

Awgrymodd PB y dylai'r Pwyllgor adolygu'r prif bwyntiau yn y cyfarfod.

Cynigiodd LD ymdrin â'i harsylwadau. Ni chaiff caeau ffermwyr eu categoreiddio bob amser fel ased, ac o'r herwydd ni chânt hysbysiadau llifogydd. Mae hyn wedi arwain at ffermwyr yn colli da byw. Awgrymodd fod darparu Systemau Draenio Cynaliadwy yn rhywbeth y dylai'r Pwyllgor ei argymhell a'i ddefnyddio, er na fyddai'r un cynllun trefol o angenrheidrwydd yn ateb y gofyn mewn amgylchedd gwledig. Dylid nodi bod busnesau amaethyddol yn ddiwydiant gwahanol, gyda pheryglon ar wahân. Cadarnhaodd LD y bydd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr yn ymateb i'r ymgynghoriad ar wahân.

Awgrymodd PB y dylai'r Pwyllgor grynhoi'r negeseuon allweddol yn eu hymateb i'r Strategaeth mewn 4 neu 5 thema, gan ei fod yn ymwybodol bod yr ymateb yn hir iawn ac y gallai fod yn anodd i Lywodraeth Cymru ei ddehongli.

Dywedodd y Cadeirydd fod yna rai mesurau yn y Strategaeth sy'n cyfeirio'n uniongyrchol at y Pwyllgor. Awgrymodd eu bod yn tynnu sylw hefyd at y canlynol:

- Ymaddasu arfordirol – rôl fforymau a Grwpiau Arfordirol
- Mynediad at wybodaeth ar gyfer rhanddeiliaid a'r cyhoedd, a adlewyrchir yn amcan A y strategaeth – gwella ein dealltwriaeth a'n dulliau o gyfathrebu peryglon
- Y rhyngwyneb â chynllunio
- Refeniw a chyllid cynnal a chadw – pwysleisio ein hymatebion ehangach, ymrwymadau tymor byr a geir yn y strategaeth
- Rheoli Llifogydd yn Naturiol
- Cysylltu â Llesiant, e.e. Y Friog
- Y wasgfa arfordirol – mae'n canolbwyntio ar gynefinoedd a'r amgylchedd, ond yn y bôn gall effeithio ar aneddiadau hefyd

Gofynnodd y Cadeirydd am syniadau'r aelodau ynglŷn â'r mesurau a'r themâu allweddol a awgrymwyd.

Cododd NH y pwynt fod adran monitro ac adrodd y Strategaeth yn fyr iawn a bod angen llawer mwy o fanylion.

Awgrymodd AP na ddylai'r Strategaeth gael ei hysgrifennu o angenrheidrwydd ar gyfer y cyhoedd, ond yn hytrach ar gyfer rhanddeiliaid a chanddynt wybodaeth am reoli perygl llifogydd.

Dywedodd JM y dylai'r ymatebion, yn ddelfrydol, ymdrin â'r cwestiynau, ac y dylid ymdrin â sylwadau ychwanegol yng Nghwestiwn 12.

Cadarnhaodd y Cadeirydd y gellir ailddrafftio'r ymateb yn y ffordd honno.

Dywedodd JP ei bod yn bwysig bod adran swyddogaethau a chyfrifoldebau y strategaeth ddrafft yn gywir a chlir, ac fel y mae ar hyn o bryd, bod angen mwy o waith arno. Roedd o'r farn bod CNC yn credu nad oedd y ddeddfwriaeth wedi'i dehongli'n gywir mewn rhai manau a bod angen ei diwygio. Awgrymodd y gallai Mesur 1 y strategaeth gael ei ymestyn i gynnwys swyddogaeth i'r Pwyllgor egluro swyddogaethau a chyfrifoldebau.

Awgrymodd AS fod yr adnoddau y byddai eu hangen i hysbysu'r cyhoedd yn enfawr – mae'r Friog yn enghraifft dda, gyda Chyngor Gwynedd wedi cynnal 250+ o gyfarfodydd. Esboniodd y byddai'n haws pasio hyn mewn pwyllgorau Cynghorau pe bai'n ddyletswydd yn hytrach nag yn arfer dda.

Daeth y Cadeirydd â'r trafodaethau ynghylch y Strategaeth i ben, gan gadarnhau y bydd yn ystyried y trafodaethau a gafwyd heddiw ynghyd â chyfraniad LD, ac yn llunio drafft terfynol i'w gyflwyno erbyn 16 Medi.

## **CAM GWEITHREDU 3 – Y Cadeirydd i ailddrafftio a chyflwyno ymateb y Pwyllgor i'r Ymgynghoriad**

### **7.4 Rhaglen Waith y Pwyllgor**

Cael adroddiad y Cadeirydd ac ystyried yr argymhelliad y dylid cymeradwyo'r Rhaglen Waith.

Cyflwynodd y Cadeirydd y papur a'i themâu, gan ddelio wedyn â chwestiynau ac arsylwadau.

Mynegodd NH bryderon ynghylch sut y byddem yn defnyddio amserlenni sefydlog I fynd i'r afael â Thema 11 – “Materion brys a chydnerthedd ehangach o safbwynt Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol”, gan fod yr angen hwn yn angen parhaus. Dywedodd JM fod hyn yn ymwneud â'r polisi sy'n sail i gydnerthedd ac ymateb.

Cadarnhaodd y Cadeirydd y gellir adolygu'r rhaglen waith a'i dwyn ymlaen yn flynyddol, felly mae modd newid amserlenni a chymau gweithredu.

Awgrymodd JD y byddai blaenoriaethau Brexit yn gwneud amserlenni Thema 5 (Adolygu'r polisi a'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru) yn heriol.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n rhaid iddynt ailystyried y rhaglen waith ar ôl i'r Strategaeth newydd gael ei chyhoeddi.

Dywedodd JP ei fod yn credu bod Themâu 4, 5 a 7 yn hynod bwysig. Byddai'n ddefnyddiol be byddai Thema 4 ar sicrhau cymaint o adnoddau â phosibl yn cynnwys adnoddau dynol (sgiliau a chapasiti). Byddai'n ddefnyddiol pe gallai Thema 5 gynnwys swyddogaethau a chyfrifoldebau gan bod cysylltiad mor agos â'r ddeddfwriaeth, a bod Thema 7 yn bwysig iawn oherwydd yr heriau sylweddol ym maes addasu arfordirol sydd i'w hwynebu yng Nghymru.

Cadarnhaodd JM fod y Gweinidog yn awyddus i dynnu sylw at arferion da'n ymwneud â Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol a Rheoli Llifogydd yn Naturiol, yr ymdrinnir â nhw yn Thema 3.

Argymhellodd y Cadeirydd y dylid cymeradwyo'r rhaglen waith hon cyn cynnal sgwrs gyda'r Gweinidog.

Cytunodd y Pwyllgor i gyflawni'r rhaglen waith fel yr iteriad cyntaf o ddogfen fyw fydd yn cael ei hadolygu a'i diweddarau gan y Pwyllgor pan fyddai angen.

## **8. Unrhyw fater arall a nodwyd yn flaenorol wrth y Cadeirydd**

Trafododd JD y Seminar Risgiau Arfordirol a Newid Hinsawdd a gynhelir yn Llandrindod ar 17 Hydref. Dywedodd fod amrywiaeth o randdeiliaid wedi cael gwahoddiad i'r seminar, a fydd yn cynnig cipolwg ar yr heriau enfawr sy'n wynebu

awdurdodau lleol, partner-sefydliadau a chymunedau yng nghyd-destun pwysau parhaus ar gyllidebau a llai o adnoddau i amddiffyn ein cymunedau yn y dyfodol.

#### **CAM GWEITHREDU 4 – JD i anfon y gwahoddiad at aelodau'r Pwyllgor – cânt eu hannog i fynychu**

**9. Cytunwyd ar benderfyniad i wahardd y cyhoedd pan fyddai'r cyhoeddusrwydd yn niweidiol i les y cyhoedd oherwydd natur gyfrinachol y busnes a drafodir.**

Ni fu'n rhaid gwneud hyn, oherwydd ni fynychwyd y cyfarfod hwn gan y cyhoedd.

#### **10. Eitemau Cyfrinachol**

##### **10.1 Adroddiad yn ymwneud ac Adran 18**

JP wedi cyflwyno'r eitem yma.

#### **CAM GWEITHREDU 5 – Y Cadeirydd i ddrafftio ymateb i'r adroddiad Adran 18 er mwyn i'r Aelodau allu ei adolygu a chyflwyno sylwadau arno erbyn 20 Medi**

#### **11. Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf – yr wythnos sy'n dechrau ar 27 Ionawr 2020**

#### **CAM GWEITHREDU 6 – Yr Ysgrifenyddiaeth i gadarnhau dyddiad a lleoliad cyfarfod rhif 3**

#### **CAM GWEITHREDU 7 – Yr Ysgrifenyddiaeth i ddarparu manylion yr holl gyfarfodydd a gynhelir yn 2020**

Gofynnodd NH a fyddai modd i holl bapurau'r cyfarfodydd gael eu dosbarthu ynghynt, er mwyn rhoi digon o amser i'w darllen ac i aelodau'r Pwyllgor roi mewnbwn i'r agenda ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.